



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cymru Wales

8 Ebrill 2019

Annwyl gydweithwyr,

Yn dilyn y cyfathrebu diweddar, roeddem am fanteisio ar y cyfle i ysgrifennu at y proffesiwn ynglŷn â'r cynnydd a'r camau nesaf o ran y negodiadau ar gyfer Contract y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar gyfer 2019-20.

Rydym yn cydnabod bod goblygiadau i amseru cylchoedd talu oherwydd yr amser y mae'r broses negodi yn ei gymryd – sy'n adlewyrchu'r heriau i ddod i gytundeb sy'n deg i'r trethdalwr a'r proffesiwn. O ran mis Ebrill, bydd practisau yn gweld gostyngiad mewn taliadau swm craidd am y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae cyfarfod wedi'i gadarnhau ar gyfer pwyllgor negodi Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru ddydd Mercher 10 Ebrill i drafod y cynnig ar gyfer 2019/20 ymhellach. Mae pob parti yn dal yn obeithiol y deur i gytundeb cyn bo hir a fydd yn cynnwys buddsoddiad sylweddol newydd a chynnydd net mewn cyllid ar gyfer pob practis. Caiff hyn ei ôl-ddyddio ar gyfer y flwyddyn contract 2019/20 ac mae'r addasiad yn broblem o ran amseru o gofio i'r cynllun indemniad gael ei lansio ar 1 Ebrill.

Ein cyd-ymrwymiad o hyd yw dod i gytundeb sy'n sail i gynaliadwyedd Ymarfer Cyffredinol ac sy'n deg ac yn gymesur i bob parti. Byddwn yn darparu gohebiaeth bellach maes o law.

Yn gywir,

Alex Slade
Llywodraeth Cymru

Judith Paget
Prif Weithredwr, BILI Aneurin
Bevan

Charlotte Jones
Cadeirydd, Pwyllgor Ymarferwyr
Cyffredinol Cymru